OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2286

# Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001

**Cymhwyso darpariaethau Deddf 2000**

**2.** At ddibenion ymchwiliadau o dan adran 69 o Ddeddf 2000, bydd darpariaethau'r Ddeddf honno fel y'u rhestrir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys fel pe bai unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny—

(a) at swyddog safonau moesegol yn gyfeiriad at Gomisiynydd Lleol yng Nghymru;

(b) at Fwrdd Safonau Lloegr yn gyfeiriad at y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru;

(c) at Loegr yn gyfeiriad at Gymru;

(ch) at adran 59 yn gyfeiriad at adran 69; a

(d) at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.